Adroddiad Blynyddol

1 Ionawr 2019 i 31 Rhagfyr 2019

Cadeirydd: David John Bowles
Is-Gadeirydd: Jill Wheeler (cyfetholwyd ym mis Mehefin 2019)
Trysorydd: Graham Wheeler (etholwyd CCA 7.11.15)
Ysgrifennydd Cyffredinol: Stephen Cox (Penodwyd ym mis Ebrill 2018)

Ymddiriedolwyr:

David John Bowles	(ail-etholwyd CCC 2017)
Graham Wheeler	(ailetholwyd CCC 2017)
Christopher Clarke	(etholwyd CCC 2016)
Peter Elvis	(etholwyd CCC 2017)
Gordon Lumby	(etholwyd CCC 2017)
Keith Davies	(cadarnhawyd CCA mis Mehefin 2017)
Stephen Cox	(cyfetholwyd mis Mehefin 2018. Wedi ymddiswyddo)
Rachel Kellaway	(cyfetholwyd mis Mehefin 2018)
Jill Wheeler	(cyfetholwyd mis Mehefin 2019)

Swyddogion:
Llywydd: Jenny Shaw (etholwyd mis Tachwedd 2019)
Is-lywydd: Fred Eckton
Ysgrifennydd Aelodaeth: David Kennedy
Ysgrifennydd Cofnodion: Jill Hill
Ysgrifennydd Digwyddiadau: Jill Wheeler (Dros dro) (penodwyd 11.09.15)
Ysgrifennydd Arholiadau: Caroline Mullineaux
Ysgrifennydd Asesiadau Sylfaenol - Nicola Oulton
Rheolwr y Wefan: Nigel Dailey (penodwyd mis Mehefin 2017)
Golygydd: Nigel Dailey
Is-olygydd: Elin Meek (penodwyd 7.12.15)
Swyddog Technegol: Wally Shaw
Swyddog Yswiriant: John Bowles
Swyddog Iechyd a Diogelwch: John Pilgrim (penodwyd 2016)
Swyddog Cyhoeddusrwydd a'r Wasg: Gwag
Archif CGC: Gwag
Swyddog CGC COLOSS: Garth Evans (penodwyd CCB 2017)
Swyddog Cydlynu Lladrata: Lee Vickers (cyfetholwyd mis Ebrill 2018)

Mae pob un o ymddiriedolwyr, swyddogion a chynorthwywyr eraill CGC yn rhoi eu hamser yn wirfoddol heb dderbyn tâl neu fanteision eraill. Mae CGC yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr hyn am eu hewyllys da a'u hymdrechion parhaus ar ran y Gymdeithas. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried yr

arweiniad a gyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ynghylch lles y cyhoedd a Chyfansoddiad Cymdeithas Gwenynwyr Cymru.

Ein Nodau a'n Hamcanion:

Annog, gwella a hyrwyddo cadw gwenyn ledled Cymru drwy:
Ddatblygu cydweithredu ymysg yr holl wenynwyr ledled Cymru a chyfnewid syniadau a phrofiadau, gwella safon cadw gwenyn drwy:
Gyhoeddi llenyddiaeth,
Darparu cymhorthion addysgol ynghyd â deunyddiau ynghylch cadw gwenyn a hyrwyddo'r gwaith o'u darparu,
Hybu'r gwaith o hyfforddi a chymhwyso gwenynwyr,
Trefnu arholiadau cenedlaethol ar lefelau amrywiol,
Hybu cyfranogiad cymunedol wrth arsylwi a dysgu am wenyn mewn ffordd ddiogel, a datblygu gwerthfawrogiad o werth gwenyn yn yr amgylchedd.

Gweinyddu:

Ceir rhestr lawn o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr â Chyngor CGC dair gwaith (ym misoedd Mawrth, Mehefin a Thachwedd) i adrodd ar weithredu'r Tîm Rheoli ac i gael arweiniad gan yr aelodaeth. Mae Cyfarfodydd y Cyngor dim ond yn gymwys fel cworwm os yw 50% o'r Cymdeithasau wedi'u cynrychioli. Rhybuddiwyd yn Adroddiad Blynyddol 2018 ein bod yn agosáu at y lefel hon mewn rhai cyfarfodydd ac y byddai cwymp arall tebyg i'r un o 2017 i 2018 yn bygwth hyfywedd CGC. Mae'n rhyddhad i mi adrodd bod y sefyllfa wedi aros yn sefydlog gyda dim un cyfarfod yn syrthio islaw cynrychiolaeth o 60% ond mae'r lefel hon o ymwneud gan bob Cymdeithas yn dal i fod yn bryder. Cynrychiolir rhai cymdeithasau ym MHOB UN o gyfarfodydd y Cyngor, dydy rhai byth yn mynychu. Yn y gorffennol, mae'r Tîm Rheoli wedi cynnig dod i siarad â'r cymdeithasau sy'n aelodau i esbonio'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut gallen ni gael ein helpu ond mae'r ymateb i'r cynnig hwn wedi bod yn wael. Mae'r cynnig hwn ar gael o hyd. Dosbarthwyd cofnodion pob cyfarfod y Tîm Rheoli drwy ysgrifenyddion y cymdeithasau.

Mae cyfarfodydd y Cyngor wedi'u hamserlennu ar gyfer o leiaf dair gwaith yn 2020 gyda'r cyfarfod cyntaf ar 7 Mawrth ar ôl y CCB. Yna ar 27 Mehefin a 7 Tachwedd 2020. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cwrdd ym Mhlas Dolguog ym Machynlleth sydd fel petai wrth fodd y cynrychiolwyr. Rydyn ni bob amser yn ceisio dewis lleoliadau sy'n gallu darparu ar ein cyfer yn rhesymol yn ogystal â rhai sy'n adlewyrchu'r mannau y mae cynrychiolwyr sy'n mynychu'n gyson

yn dod ohonyn nhw. Gwaetha'r modd, oherwydd y logisteg yng Nghymru, mae hyn yn aml yn dod o dan y pennawd “anghyfleus i bawb”.

Bydd y Tîm Rheoli yn cwrdd o leiaf pedair gwaith yn 2020, y tro cyntaf ar ddydd Gwener 24 Ionawr yng Ngwesty'r Royal Ship, Dolgellau. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau cyfredol i'r Tîm Rheoli ond caiff hyn ei adolygu ar ôl y CCB er mwyn ystyried cyfeiriadau cartref y rhai a gaiff eu hethol.

Mae anhawster wrth sicrhau bod y Tîm Rheoli yn gymwys fel cworwm yn dal i fod yn ffactor pwysig ac oherwydd hyn tri chyfarfod yn unig y llwyddwyd i'w cynnal y llynedd. Mae hyn yn bennaf oherwydd salwch Ymddiriedolwyr ac felly nid oes modd ei osgoi. Mae'n rhaid mynegi diolch i'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli yn rheolaidd. Mae'r newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ymddiswyddiad ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Stephen Cox. Diolch i Steve am ei waith ar ran CGC. Hefyd mae'n rhaid i ni ddiolch i Jill Wheeler sydd wedi cytuno i ymgymryd â rôl yr Is-Gadeirydd er mwyn sicrhau parhad pan fydd Cadeirydd newydd ym mis Mawrth. Oherwydd ein hanallu i recriwtio Ysgrifennydd Digwyddiadau i gymryd ei lle, mae Jill hefyd wedi parhau i drefnu ein digwyddiadau, yn enwedig y Confensiwn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r aelodaeth wedi parhau'n gymharol sefydlog ond mae'n galondid nodi bod y duedd yn dal i fod ar i fyny gyda'n haelodaeth gyffredinol bellach yn 1943, i fyny o 1900 y llynedd.

Noddwr Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

Roedd rhai o aelodau CGC yn credu bod y Tywysog Phillip yn noddwr i ni. Fodd bynnag, pan ymholwyd ynghylch pwy allai ddod yn ei le pan fyddai'n ymddeol o ddyletswyddau cyhoeddus, dywedodd ei Ysgrifennydd fod gwybodaeth o'r ddyletswydd hon wedi dod yn dipyn o syndod.

Roedd hyn yn gadael bwlch, ac er nad oedd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â gofyn i Robert Pickard fod yn Noddwr i ni, gofynnoch chi yn CCB 2019 i ni ei holi a fyddai'n cytuno. Roedd yn cael ei ystyried yn ddelfrydol i'r rôl o gofio ei gyfraniad i wenyna yng Nghymru ac roedd pawb a welodd ei berfformiad yn nigwyddiad ein 75 Pen-blwydd wedi cymryd ato'n fawr. Diolch byth, derbyniodd y gwahoddiad ac rydyn ni'n ffodus i'w gael.

Trefniadau Cacwn Meirch Asiaidd

Yn 2019 gwelwyd nifer o Gacwn Meirch Asiaidd yn y DU, er, diolch byth, dim un yng Nghymru er bod Tamworth yng ngorllewin Canolbarth Lloegr yn mynd ychydig bach yn rhy agos. Mae'r NBU, fel mewn blynyddoedd

blaenorol, wedi gwneud gwaith rhagorol o ymateb i'r achosion hyn a hyd yma nid adroddwyd am unrhyw nythod eraill a dyma'r adeg o'r flwyddyn y bydden nhw'n haws eu nawr yn y coed sydd bellach yn noeth. Rwy'n credu y dylai'r yr adroddiad o Tamworth, fel achosion eraill mewndirol, fod yn rhybudd i ni nad achosion ar hyd Arfordir De Lloegr y dylen ni fod yn cadw llygad arnyn nhw - bydd Cacwn Meirch Asiaidd yn manteisio ar gyfleoedd ac yn cymryd reid ar lorïau neu garafanau sy'n dod i mewn o'r Cyfandir. Mae Canllawiau Newydd wedi'u rhoi i bob un o'r cymdeithasau sy'n aelodau ac mae'r mwyafrif wedi penodi Cydlynwyr Trefniadau Cacwn Meirch Asiaidd i gydlynu â'r NBU ac â chymdeithasau eraill petai achos lleol yn codi. Rhan o'r broses hon fu ymuno â'r BBKA i sicrhau bod mannau cysylltu ar gyfer y cyhoedd yn haws eu cael ar fap o'r DU sydd ar y rhyngrwyd. Mae'r cymdeithasau hynny nad ydyn nhw wedi ymateb wedi cael gwybod am eu diffygion.

Cronfeydd wrth Gefn:

Mae'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn dweud y bydd yr Elusen (CGC) yn cadw cronfa wrth gefn o £10,000 i £13,000. Mae angen y gronfa wrth gefn hon yn ôl y Gyfraith Elusennau i dalu am gostau gweithredol a chytundebol petai'r angen yn codi. Caiff y polisi hwn ei fonitro a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Defnyddir yr arian yng nghyfrif cyfredol HSBC nid yn unig i dalu am gostau rhedeg y Gymdeithas ond i ariannu amryw o brosiectau fel rhedeg cyrsiau a lledaenu gwybodaeth, drwy amryw o ddulliau, fel y wefan, cyhoeddiadau a llyfrynnau.

Mae adroddiad ariannol manwl yn cyd-fynd â'r ddogfen hon. (Atodiad A).

Llywodraethu:

Fel nodir uchod, rydym wedi colli Steve fel Ysgrifennydd ac ymddiriedolwr ond fel arall mae ein Tîm Rheoli wedi aros yn sefydlog gyda Nicola Oulton yn gwirfoddoli'n garedig i ymgymryd â rôl Swyddog Asesiadau Gwenyna Sylfaenol.

Aelodaeth:

Mae gan CBC bedair Aelod-Gymdeithas ar bymtheg ac un gymdeithas arbennig sy'n cynrychioli 1,943 Aelod Anuniongyrchol. Fel rhan o'r aelodaeth y pen a godir ar bob Aelod-Gymdeithas, mae'r aelodau Anuniongyrchol yn elwa drwy dderbyn pedwar rhifyn o 'Gwenynwyr Cymru' ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch trydydd parti. Ar hyn o bryd mae chwech ar hugain Aelod Unigol a saith Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas

Gwenynwyr Cymru. Mae dadansoddiad manwl o'r aelodaeth yn dod gyda'r adroddiad hwn. (Atodiad B).

Gwefan:

Mae Nigel Dailey yn parhau i fod yn Wefeistr ac yn Olygydd hefyd ac rydym yn dra diolchgar am hyn. Mae Nigel yn ddeheuig iawn wrth ymdrin â chynnwys ond mae'n teimlo'n llai hyderus wrth ymdrin ag elfennau'r wefan. Mae Nigel wedi tueddu i ymdrin â materion fel hyn gyda chymorth ei deulu ond mae ein Hysgrifennydd Aelodaeth wedi cytuno i helpu hefyd os yw Nigel mewn trafferthion. Yn ogystal mae'r Tîm Rheoli wedi cytuno, os bydd angen, y byddem yn talu am help arbenigol. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw awgrymiadau y carech eu gwneud o ran y wefan a'i hygyrchedd.

Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru:

Mae Nigel yn dal i wneud gwaith ardderchog wrth olygu Gwenynwyr Cymru, heb lawer o gymorth o gwbl gan Dîm Golygyddol sy'n cynnwys y Cadeirydd a Chris Clarke, Ymddiriedolwr, sy'n gwneud gwaith gwych yn prawf ddarllen. Mae'r Cylchgrawn yn gyfle i aelodau ddweud eu dweud mewn print, boed ar ffurf llythyr at y Golygydd neu mewn erthygl ar ryw agwedd ar wenyna. Cyfrannwch beth bynnag y gallwch, da chi. Pe gallem lenwi'r cylchgrawn â chyfraniadau lleol, byddai hynny'n wirioneddol dda.

Cyhoeddiadau:

Unwaith eto mae'n rhaid i ni ddiolch i Wally Shaw am ddiwygio'r llyfryn ar Reoli Heidiau a gaiff ei ddosbarthu gyda Rhifyn y Gwanwyn o Gwenynwyr Cymru ac am ddiweddaru'r llyfryn Gwneud Cynnydd sydd wedi cael ei ailargraffu gan fod y llyfrynnau wedi'u gwerthu bron i gyd. Hefyd mae Wally yn gweithio ar ganllawiau Bwydo newydd i ddod yn lle'r llyfryn Llywodraeth Cymru/CGC gwreiddiol. Cyhoeddir hwn yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n ariannol at y cyhoeddiad hwn.

Cynllun Gwenyn Iach

Mae Cynllun Gwenyn Iach 10 mlynedd y DU bellach wedi dod i ben a gwneir adolygiad o'r cyflawniadau a wnaed cyn datblygu a chyhoeddi cynllun pellach. Yn rhan o'r adolygiad hwnnw mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn asesu pa gyfraniadau at hyrwyddo achos gwenyn sydd wedi'u gwneud yng Nghymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac yn annibynnol. Er nad yw hi bob amser yn amlwg beth mae'r Cynllun wedi'i ysgogi a beth fyddai wedi'i gyflawni heb yr ysgogiad hwnnw, dyma rai o'r cyfraniadau a nodwyd.

- gwaith ar golledion y gaeaf a goddef varroa mewn gwenyn mêl Cymreig
- cyhoeddi llyfrynnau/canllawiau addysgiadol i weithgareddau hanfodol cadw gwenyn a phrosesu mêl
- canllawiau ar adnabod clefydau/pla gan y NBU a CGC
- hybu gwenyna ymhlith cenhedlaeth iau ac mewn ysgolion.
- cyfrannu at Dasglu Peillwyr Llywodraeth Cymru

Mae'r rhain yn ychwanegol at ymchwil gan gymdeithasau yn annibynnol yn ogystal â mewn partneriaeth â phrifysgolion a sefydliadau eraill.

Gwaith partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â'r uchod, mae'n werth nodi bod perthynas waith lawer agosach rhwng CGC a Llywodraeth Cymru. Kathleen Carroll yw'r person sy'n cynrychioli gwenyna yn LlC. Yn ogystal â hyfforddi fel gwenynwr, mae Kathleen bellach yn mynychu ein cyfarfodydd Cyngor hefyd.

Cyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc (IMYB)

Yn 2019 gwelwyd tîm o wenynwyr ifanc o Gymru wedi'u noddi gan CGC yn cystadlu am y tro cyntaf yng nghystadleuaeth cyfarfod rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc.

Tri yw maint arferol tîm ond dau berson ifanc yn unig y llwyddon ni i'w cynnull eleni – Dafydd Pett a Tomos Evans. Gwnaeth yn dda yn dda ym mhob un o'r profion a'r gweithgareddau cysylltiedig ond o gofio mai 66 y cant oedd y ganran uchaf bosibl y gallen nhw ei sgorio yn erbyn timau llawn, doedd dim disgwyl iddyn nhw ennill. Yr hyn a gawson ni, fodd bynnag, oedd dealltwriaeth o ffurf y gystadleuaeth ac o'r gwahaniaethau yng ngwenyn ac yn nulliau gwenyna gwledydd eraill. Gobeithio y bydd y ddealltwriaeth hon yn ddefnyddiol inni os ydyn ni'n gallu cynnull tîm llawn eleni a/neu mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Y fantais arall oedd bod Richard, tad Dafydd Pett, wedi dychwelyd yn llawn brwdfrydedd am y gystadleuaeth ac eisiau gwneud beth bynnag y gallai ei wneud i annog gwenynwyr ifanc arall i gystadlu. Mae wedi cytuno i ddod yn Swyddog IMYB Cymdeithas Gwenynwyr Cymru ac mae ef, Tomos a Dafydd yn barod i roi pa wybodaeth bynnag i helpu eraill. Hefyd mae Emma Davies wedi cytuno i ddod yn Swyddog Ysgolion a gobeithio y gallan nhw weithio gyda'r Pwyllgor Dysgu a Datblygu yn y dyfodol i ddatblygu gwenynwyr ifanc yng Nghymru.

Y Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna:

Y Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna yw'r cymhwyster gwenyna academaidd ffurfiol uchaf sydd ar gael yn y DU. Mae'r corff dyfarnu'n annibynnol ar bob cymdeithas Wenyna Genedlaethol ac mae bri mawr ar ei ddyfarniad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ers dechrau'r Diploma yn 1954, dim ond 92 diploma sydd wedi cael eu dyfarnu. Mae cyrraedd y lefel sy'n eich galluogi i ymgymryd â'r arholiad terfynol dros ddau ddiwrnod yn golygu ymdrech enfawr a gwaith caled, felly mae'n bleser adrodd i "un ohonon ni", Lynfa Davies, lwyddo yn ei harholiad terfynol yn yr Alban yn gynnar yn 2019 felly mae hi wedi ymuno â'r criw disglair hwn. Mae hyn nid yn unig yn gamp bersonol i Lynfa ond bydd o fantais i CGC gan y byddwn ni, gyda'i chaniatâd, yn gallu rhedeg rhagor o gyrsiau lefel uwch cartref yma yng Nghymru.

Cyfarfodydd Mewnol CGC 2019:

9 Ionawr – Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr a Swyddogion eraill (Machynlleth)

2 Mawrth – CCB, Cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Digwyddiadau (Machynlleth)

26 Ebrill – Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr a Swyddogion eraill (Machynlleth)

29 Mehefin – Cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Digwyddiadau (Machynlleth)

6 Medi – Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr a Swyddogion eraill (Machynlleth)

2 Tachwedd – Cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Digwyddiadau (Machynlleth)

Cyfarfodydd Allanol

Bu'r Ymddiriedolwyr a Swyddogion eraill yn gweithio gyda nifer o gyrff yn ystod 2019 er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth dda i CGC a'i haelodau a'u bod i gyd yn cael gwybodaeth ar lefel Llywodraeth y DU a Chymru. Hefyd rydyn ni'n gweithio gyda chyrff sydd â diddordebau tebyg neu sy'n cydredeg er mwyn sicrhau y gallwn ni weithredu ar y cyd pan fydd angen.

Roedd rhai o'r cyfarfodydd allanol a fynychwyd yn cynnwys rhai:

BHAF (UK)

Mae'r **Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn/Bee Health Advisory Forum** yn gyfarfod wedi'i drefnu gan Lywodraeth y DU lle mae

cynrychiolwyr o bob Cymdeithas Wenyna dros Brydain, yn ogystal â NBU, APHA, Cyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, Milfeddygon gwenyn ac ati Mae'n cynnig cyfle i drafod a dylanwadu ar faterion cyfredol ac arfaethedig a all fygwth lles ein gwenyn. Mae'r eitemau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio wedi'u cynnwys yn fwy manwl yn Adroddiad y Swyddog Technegol.

CONBA

Mae'r **Council of National Beekeeping Association** yn grŵp lle mae pob un o Gymdeithasau Cenedlaethol Ynysoedd Prydain (gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon) yn mynychu. Mae'n rhoi cyfle i Gymdeithasau fel hyn drafod materion sy'n debygol o effeithio ar wenyna.

Mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu strategaethau ar y cyd i ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys cynlluniau'r llywodraeth, yn rhai cartref ac Ewropeaidd.

Ar hyn o bryd, Cadeirydd CGC yw cadeirydd CONBA hefyd. Mae CONBA yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn wyneb yn wyneb a sawl gwaith drwy delegynadledda.

Fforwm Peillwyr Cymru

Fforwm o dan nawdd Llywodraeth Cymru yw hwn sy'n dod ag amrywiaeth o grwpiau ynghyd sy'n cynrychioli mudiadau sydd â diddordeb mewn diogelu'r amgylchedd gwyllt a gwella rheoli tir er lles peillwyr o bob math, yn amrywio o ieir bach yr haf, pryfed hofran i gacwn a gwenyn mêl

Rydyn ni'n credu y bydd beth bynnag sy'n dylanwadu ar y dirwedd gorfforol a rheolaeth y tir i unrhyw beilliwr, ac yn ei wella, hefyd o fudd i wenyn mêl. Mae'r fforwm yn cwrdd ddwywaith neu deirgwaith y flwyddyn, fel arfer yn y Drenewydd.

Cynrychiolaeth CGC mewn Cyfarfodydd Allanol 2018:
Jenny Shaw (J.S.), John Bowles (J.B.), Wally Shaw (W.S.), Keith Davies (K.D)

B.H.A.F - 25 Chwefror W.S a J.B
CONBA - 12 Ebrill JS a JB
BDI - 12 Ebrill WS
Peillwyr - 16 Ebrill JB a KD
BHAF - 21 Mehefin WS a JB
Peillwyr - 14 Hydref KD

CONBA - 24 Hydref WS
BHAF - 5 Rhagfyr WS a JB
ADRODDIADAU:

Pwyllgor Digwyddiadau: Jill Wheeler

Mynychodd 517 cynrychiolydd o bob rhan o Gymru a dros y ffin y Cynulliad Gwanwyn, roedd hyn yn gynnydd bach ar 2018. Helpodd y 47 Stiward eleni i sicrhau bod y cynulliad yn llwyddiant. Rhoddwyd gwobr y stiwardiaid gan B.J. Sherriff a'r enillydd oedd David Culshaw. Roedd cynrychiolaeth dda ym mhob un o'r darlithiau. Gwnaeth y cynulliad weddill o tua £733.60.

Cefnogwyd yr Ŵyl Wanwyn gan 15 aelod yn stiwardio'r stondin wrth ochr yr Arolygwyr Gwenyn. Eto roedd y stondin yn boblogaidd iawn gyda'r cyhoedd a gyda gwenynwyr o Gymru a thu hwnt. Cododd gweithgaredd rholio canhwyllau a Bee Aerial £75.50 i Bees Abroad. Roedd hwn yn swm gwych gan fod y sioe yn ymddangos yn dawelach na blynyddoedd blaenorol.

Yn y Sioe Frenhinol o 22 i 25 Gorffennaf roedden i yn y babell Garddwriaeth, yn llenwi lle stondin y Sir o Dan Sylw gan nad oedd y sir honno wedi gallu cael digon o gefnogaeth. Bu 21 aelod y stiwardio'r stondin. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer Cynulliad Gwanwyn 2020 bron wedi'i gwblhau. Mae'r siaradwyr agoriadol a'r prif siaradwyr wedi'u cadarnhau:

Paul O'Brien - Llywydd Ffederasiwn Cymdeithasau Gwenynwyr Iwerddon.
Yr Athro Stephen Martin - Deall esblygiad mecanweithiau goddefiant Varroa yn naturiol mewn amryw o boblogaethau gwenyna, darlith o dan nawdd BDI.
Laura Jones - Archwilio hoff ddewisiadau fforio gwenyn mêl gan ddefnyddio codio metabar DNA.
Filipe Salby - Lan lofft, lawr staer yn y cwch gwenyn.
Kevin Williams - Hanes a Thraddodiadau gwenyna yng Nghymru.

Roedd gan y pwyllgor gadeirydd dros y rhan fwyaf o'r flwyddyn wrth i Jill Wheeler gymryd rôl y Dirprwy-gadeirydd ym mis Mehefin. Fodd bynnag, mae CGC yn dal i chwilio am Ysgrifennydd Digwyddiadau i weithio wrth ochr Jill.

Addysg a Datblygu:

Mae cyrsiau wedi'u trefnu drwy'r flwyddyn. Cwrs Magu Breninesau wedi'i noddi gan BBKA ym mis Awst 2019 a chwrs Hwsmonaeth Gyffredinol wedi'i noddi gan CGC ym mis Mawrth 2020.Bydd Gwenynwyr sir Drefaldwyn yn cynnal y ddau gwrs yng Ngregynog.

Mae datblygiadau tuag at annog gwenynwyr iau yn cynnwys Emma Davies fel Swyddog Ysgolion a Richard Petts fel Swyddog Cyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc (IMYB).Bydd arolwg o ddarpariaeth hyfforddiant a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn, yr ymatebodd tua dau draean o'r Aelod-Gymdeithasau iddo, yn sylfaen gadarn ar gyfer datblygu cefnogaeth i addysg a hyfforddiant gan CGC yng Nghymru.

Arholiadau:

Adroddiad Blynyddol 2019 yr Ysgrifennydd Arholiadau 2019 Asesiadau Sylfaenol Llwyddodd 23 ymgeisydd yn yr Asesiadau Sylfaenol yn 2019 a phleser yw nodi bod nifer yr ymgeiswyr yn uwch na rhai 2018 – tuedd rydyn ni'n mawr obeithio a fydd yn parhau.

Paul Godsman	Ynys Môn	
John Mosedale	Pen-y-bont	Rhagoriaeth
John Rayner	Pen-y-bont	Clod
Lynnette Rayner	Pen-y-bont	Rhagoriaeth
Thomas Bean	Pen-y-bont	Rhagoriaeth
Jane Finch	Caerdydd	Clod
Nigel Clark	Caerdydd	
Nicholas Mensikov	Caerdydd	Clod
Alun James	Caerdydd	
Stuart Williams	Y Fflint	Rhagoriaeth
Anna Jans	Y Fflint	Rhagoriaeth
Melanie Hugh	Y Fflint	Rhagoriaeth
Sarah Dunn	Y Fflint	Clod
Keith Roberts	Y Fflint	
Alan Horner	Y Fflint	
E Margaret Horner	Y Fflint	
Robert Sharples	Meirionnydd	Clod
Bernie Bartrum	Meirionnydd	
Claire Heath	Meirionnydd	Clod
Sally Dutton	Meirionnydd	Clod
Dylan Hughes	Meirionnydd	Clod
Neil Miller	De Clwyd	Rhagoriaeth
Kevin Haeney	Gorll. Morgannwg	

Mae’r rhain yn set ardderchog o ganlyniadau. Llongyfarchiadau a da iawn chi i'r holl ymgeiswyr, a diolch i'r rhai yn eu cymdeithasau lleol sydd wedi'u cefnogi a'u hannog nhw.

Da chi, daliwch ati i roi'r anogaeth a'r gefnogaeth hon a rhowch wybod inni os oes angen rhagor o wybodaeth.

Dylech anfon ceisiadau i gymryd yr Asesiad Sylfaenol yn 2020 at Nicola erbyn 1 Mai.

Modiwlau:

Safwyd modiwlau mis Tachwedd ar 9 Tachwedd.

Cyrhaeddodd y canlyniadau ganol mis Ionawr ac, o'r 11 a safwyd, roedd 2 ragoriaeth, 1 clod a 4 llwyddo.

Dyma grynodeb o holl ganlyniadau modiwl 2019 (h.y. mis Mawrth a mis Tachwedd). Unwaith eto, mae'r rhain yn ganlyniadau rhagorol gyda chyfradd llwyddo cyffredinol o 76% i ymgeiswyr yng Nghymru.

Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr ac, i'r rhai na chawson nhw'r canlyniad yr oedden nhw'n ei obeithio, rydyn ni'n mawr obeithio y rhowch chi gynnig arall arni.

Modiwl 1

Martine Hewitt - Glannau Teifi
Bertina Edwards - Glannau Teifi (Clod)
Simon Fielding – Y Fflint
Martin Charlesworth – Ynys Môn

Modiwl 2:

Martine Hewitt – Glannau Teifi (Clod)
Mary Ratcliffe – Conwy (Clod)
Bertina Edwards - Glannau Teifi (Clod)

Modiwl 3:

Kevin Jones – Conwy
Jane Webber – Conwy (Clod)
Tracy Harper – Aberystwyth (Rhagoriaeth)
William Warren – Conwy
Kathleen Keirle – Aberystwyth
Keith Hall – Dwyrain Sir Gaerfyrddin
Bertina Edwards – Glannau Teifi (Rhagoriaeth)

Modiwl 5:

Tracy Harper – Aberystwyth

Modiwl 6:

Phoebe Close – NGW
Grace Skinner – NGW (Rhagoriaeth)
Lynda Christie – NGW (Clod)
David Whiteley – NGW

Hefyd dyfarnwyd Tystysgrif Ganolraddol Theori, gyda Chlod, i Tracy Harper (Aberystwyth).

Edrych ymlaen

Ar hyn o bryd mae 7 ymgeisydd wedi'u cadarnhau ar gyfer modiwlau mis Mawrth 2020 gydag ychydig wythnosau i fynd eto cyn y dyddiad cau am geisiadau. Anfonwyd nodyn i atgoffa cymdeithasau lleol o'r dyddiad cau am geisiadau.

Mae cwrs paratoi Hwsmonaeth Gyffredinol y mae CGC yn ei redeg yn 2020 bron yn llawn felly mae hyn yn argoeli'n dda i'r dyfodol. Bydd cael rhagor o wenynwyr yng Nghymru sydd â'r Dystysgrif Hwsmonaeth Gyffredinol yn cefnogi'r cynllun i gael dilyniant o Aseswyr Sylfaenol a bydd hyn yn hanfodol os ydyn ni'n parhau i lwyddo i gael rhagor o wenynwyr i roi cynnig ar yr Asesiad Sylfaenol.

Crynodeb

Rydyn ni'n llongyfarch eto bob un o'r ymgeiswyr Asesiad Sylfaenol a Modiwlau yn 2019 ac yn diolch i bawb a fu'n ymwneud â hyrwyddo'r rhain, naill ai drwy oruchwylio a/neu ddarparu lleoliadau ac ati. Gwerthfawrogir eich help yn fawr.

Fel erioed, rydyn ni'n fwy na hapus i roi rhagor o wybodaeth i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer naill ai'r Asesiadau Sylfaenol, y Modiwlau, neu'r Asesiadau Ymarferol Uwch. Anfonwch e-bost atom yn education@wbka.com

Caroline Mullinex a Nicola Oulton

Ysgrifennydd Arholiadau a Swyddog yr Asesiad Sylfaenol Ionawr 2020

Swyddog Cyhoeddusrwydd Dim adroddiad, swydd wag.

Adroddiad y Swyddog Technegol – Wally Shaw

Y Gwasanaeth Archwilio Gwenyn
Mae CGC wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Archwilio Gwenyn. Cyhoeddwyd adroddiad hynod gynhwysfawr gan yr Arolygydd Gwenyn

Rhanbarthol (Frank Gellaty) yn rhifyn y gaeaf o Gwenynwyr Cymru a does dim byd y gallaf ei ychwanegu at hyn. Mae un swydd wag SBI o hyd yng Nghymru ond, diolch i Lywodraeth Cymru, does dim embargo ar recriwtio fel sydd yn Lloegr.

Problemau gyda Breninesau
Dydw i ddim wedi clywed unrhyw adroddiadau (cwynion) am freninesau'n methu eleni. Doedd y tywydd ddechrau mis Mehefin ddim yn arbennig o ffafriol i gyplu breninesau a gwelon ni bod ailgyflwyno breninesau yn digwydd rywfaint yn ddiweddarach o'i gymharu â'n disgwyliadau ond yn y pen draw roedd lefel uchel o lwyddiant.

Chwilen Fach y Cwch (Small Hive Beetle, SHB)
Mae adroddiad llawn o'r datblygiadau gyda'r chwilen hon yn Ne'r Eidal yn Adroddiad Blynyddol Frank Gellatly yn Gwenynwyr Cymru.

Y Gacynen Feirch Asiaidd (Asian Hornet, AH)
Eto, mae adroddiad llawn ar weithgarwch eleni gyda'r gacynen hon yn adroddiad Frank. Y dystiolaeth ddiweddaraf yw nad oes nythod o'r Gacynen Feirch Asiaidd wedi'u sefydlu yn unman yn y DU ond, fel gwenynwyr, mae angen inni fod yn wyliadwrus iawn gan y gallai hi ymddangos bron yn unman.

Cyfarfodydd Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (BHAF)
Unwaith eto, mae tipyn go lew o'r drafodaeth yn BHAF eleni wedi bod am BREXIT. Nawr bod hyn bron â digwydd, efallai y cawn ni ychydig o wybodaeth fwy eglur am sut bydd hyn yn effeithio ar wenyna ond rwy'n amau mai achos o 'peidiwch â dal eich gwynt' fydd hi oherwydd rydyn ni'n debygol o fod yn reit agos at waelod y rhestr o addewidion hael sydd wedi'u gwneud i'r etholwyr.

Eto rwyf wedi methu cael unrhyw ffigurau sy'n ymwneud â nifer y breninesau a chytrefu a fewnforiwyd i'r DU yn 2019, felly does gennym ddim syniad a fu cynnydd arall ai peidio.

Ailadroddwyd y Cyfrif Cychod Blynyddol eleni. Cysylltwyd â phob gwenynwr ar BeeBase ond dim ond tua eu hanner nhw a ffwdanodd agor yr e-bost, hyd yn oed. O'r rhai, dim ond hanner eto a gydweithredodd (25% o'r holl rai y cysylltwyd â nhw) drwy ddiweddaru cofnodion eu gwenynfa. Roedd system lawer mwy cyfeillgar ar gyfer diweddaru yn ei lle eleni, felly does dim esgus wir dros yr ymateb gwael hwn.

Mae'r drafodaeth ar Gynllun Iechyd Gwenyn II (i'w gyflwyno yn 2020) wedi parhau ond does gen i ddim byd pendant i'w adrodd. Mae'r rhan fwyaf o'r

gweithgarwch diweddar wedi canolbwyntio ar nodi llwyddiannau'r 10 mlynedd blaenorol a'r prawf (y cyfeirir ato fel 'metrics'!). Fel erioed, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng beth sydd wedi digwydd o achos y Cynllun a beth fyddai wedi digwydd beth bynnag.

Lefelau Varroa 2019
Yn fy mhrofiad i mae lefelau Varroa yn uwch eleni ond does gen i ddim syniad eglur pam. Efallai fod mwy o fag ganol y gaeaf (2017-18), pan roddwyd y driniaeth asid ocsalig, ac o ganlyniad roedd mwy o boblogaeth o widdon ar ddechrau'r tymor, ond, yn y bôn, does gen i ddim syniad.

Cyhoeddiadau Technegol CGC:
Does dim llawer o ddau o Lyfrynnau CGC ar ôl a pharatowyd dau argraffiad newydd i'w cyhoeddi. Mae ***Canllaw'r Wenynfa i Reoli Heidiau*** wedi'i ddiweddaru'n helaeth o ganlyniad i ragor o brofiad a hefyd adborth gan ddefnyddwyr. Dylid dosbarthu hwn i bob aelod o CGC gyda rhifyn y Gwanwyn o Gwenynwyr Cymru. Mae ***Dulliau Syml o Gynyddu*** wedi'i ddiweddaru ychydig hefyd ond ddim cymaint i gyfiawnhau ei ailddosbarthu i bob aelod. Ond mae'n bosibl cael copïau o'r fersiwn newydd, ond i chi ofyn amdanyn nhw drwy gynrychiolwyr Cyngor eich cymdeithas CGC. Mae cyflenwad o bob llyfryn yng Nghyfarfodydd y Cyngor fel bod modd rhoi set lawn i wenynwyr newydd. Mae llyfryn hollol newydd am fwydo gwenyn yn cael ei baratoi a dylai gael ei ddosbarthu'n ddiweddarach eleni.

Wally Shaw (Swyddog Technegol CGC)
21 Ionawr 2020

Swyddog Yswiriant:

Adnewyddwyd Polisïau Yswiriant Cymdeithas Gwenynwyr Cymru drwy'r un Broceriaid – Coversure Insurance, o 1 Hydref 2020. Roedd y taliadau wedi codi ychydig eleni, o dan 2%.

Mae manylion y Polisi Atebolrwydd Cyfun (Combined Liabilities) sy'n amddiffyn aelodau rhag risg sy'n codi o'i hobi ac unrhyw risg sy'n codi o'u cynnyrch ar gael ar Wefan CGC.

Does dim esgus gen i dros atgoffa pob Pwyllgor, Bwrdd, neu bwy bynnag sy'n rhedeg eich mudiad i sicrhau eu bod nhw'n cymryd iechyd a diogelwch unrhyw aelod sy'n gweithredu ar ran y Gymdeithas yn wirioneddol o ddifrif ac yn sicrhau eu bod nhw'n cael y cyfarpar cywir i'r gwaith a wnân nhw. Testun trafod mewn sawl un o gyfarfodydd y Cyngor yw a yw gwirfoddolwyr ar ran mudiad fel y Gymdeithas Leol yn cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth.

Yr hyn na allwn ddadlau yn ei erbyn yw'r ffaith bod ein hyswirwyr yn mynnu ers sawl blwyddyn nawr bod yn rhaid i wirfoddolwyr sy'n gweithio ar ran cymdeithas fod â'r cyfarpar cywir a'u bod yn gweithio i arferion gweithio diogel. Mae gweithio gydag asidau ocsalig neu fformig yn gallu bod yn beryglus os nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n gywir.

Hefyd mae dyletswydd gofal pan fyddan nhw'n gwneud pethau eraill fel defnyddio cyfarpar â modur, plaladdwyr, e.e. chwynladdwyr, asid ocsalig a chodi a chario.

Felly mae'n rhaid i ni sicrhau bod ymdrechion rhesymol yn cael eu gwneud i weithredu a chofnodi asesiadau risg effeithiol a rhoi cyfarpar diogelu i'n gwirfoddolwyr a cheisio diogelu yn erbyn y risgiau mwyaf difrifol. Dydy hon ddim yn dasg arbennig o feichus gan fod gweithgareddau gwenyna yn rhai risg isel ar y cyfan, ond gall methu cymryd camau rhesymol arwain at ein hyswirwyr yn gwrthod hawliad.

Swyddog Iechyd a Diogelwch:

Gair atgoffa blynyddol arall am ein Dyletswydd Gofal, a gofyniad ein Hyswirwyr, wrth i wirfoddolwyr barhau i baratoi asesiadau risg a awgrymwyd Nodyn i'ch atgoffa i sicrhau eich bod yn edrych dros asesiadau risg o leiaf bob blwyddyn a'ch bod yn cadw cofnod o'r newidiadau.

Testunau i'w hadolygu a'u hystyried
Darpariaethau lles mewn Gwenynfeydd
Gweithio ar eich pen eich hun
Trafodaeth am ddarparu swyddogion cymorth cyntaf mewn cyfarfodydd mewn Gwenynfeydd a rhai eraill, wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Epipen a chwistrellwyr eraill tebyg mewn argyfwng

Byddwch yn ofalus os byddwch mewn cysylltiad â Chacwn Asiaidd gan eu bod yn gallu “poeri” gwenwyn yn debyg i forgrug (gwisgwch gyfarpar i ddiogelu'r llygaid).

Dydy hyn ddim yn ofyniad cyfreithiol, ond gallwn ni bob amser ychwanegu labelu sy'n amlygu os yw rhywun wedi ymyrryd â jariau mêl a negeseuon cwrtais gyda chyngor i beidio â bwydo mêl i fabanod.

Rhowch labeli Perygl ar duniau llathrydd (polish) sydd ar werth a nodwch fod y rheolau ar labelu wedi newid yn ddiweddar i system symbolau Ewrop. Dydy'r hen sgwâr oren a'r groes ddu ddim yn dderbyniol bellach.

Mae swyddog Diogelwch CGC yn croesawu gwybodaeth ac enghreifftiau o drefniadau Iechyd a Diogelwch Cymdeithasau.

Paratowyd Asesiadau Risg i'w defnyddio mewn Cynulliadau a Sioeau gan Adrannau a oedd yn cynllunio'r digwyddiadau hyn.

Mae'n bosibl lawrlwytho Polisi Iechyd a Diogelwch cyfredol Cymdeithas Gwenynwyr Cymru o wefan CGC yn y cyfeiriad canlynol: http://www.wbka.com/wp-content/uploads/2015/06/Health-and-Safety-Policy-Version-1-23-October-2014.pdf (ar gael yn Gymraeg hefyd ar y wefan).

Nodyn y Cadeirydd:

Mae John wedi bod yn hirymarhous wrth gymryd y ffiol wenwyn honno, bod yn Gynghorydd Iechyd a Diogelwch i fudiad sydd dim ond yn gallu cynghori ei aelodau i weithredu'n ddiogel ond sy'n methu gorfodi ei reolau. Mater i Gymdeithasau Lleol yw sut maen nhw'n gweithredu ond o gofio bod eu hyswirwyr yn ei gwneud hi'n ofynnol iddyn nhw ddilyn rhai rheolau, a hefyd, yn gyfan gwbl oherwydd pryder am eich cyd-aelodau sy'n wirfoddolwyr, ddylech chi ddim o'u rhoi nhw mewn perygl yn ddiangen.

Dydy cost y rhan fwyaf o'r eitemau o gyfarpar diogelu sylfaenol a'r gost cynnal a chadw ddim yn uchel ac mae hen ddigon o fodd gan Gymdeithasau i'w dalu. Os nad felly mae hi, a gaf i ddyfynnu rhywbeth yr arferai archwiliwr Iechyd a Diogelwch ei ddweud, “Os nad ydych chi'n gallu fforddio ei wneud yn ddiogel, rhowch y gorau iddi”.

Datganiad: Mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan iddyn nhw gymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod

Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen

Llofnod:

Enw llawn:

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad A.

Atodiad B

Adroddiad Aelodaeth Diwedd Blwyddyn Cymdeithas Gwenynwyr Cymru 2018

Cyfanswm aelodau CGC:	**2018:**	**1900**
	2017:	1765
	Newid:	**+7.6%**

Cyfanswm yr Aelodau-gymdeithasau

Cyfanswm yr Aelodau eraill

	2018	2017
Cyfanswm cyffredinol	**1900**	1765

Adroddiad gan David Kennedy, Ysgrifennydd Aelodaeth CGC.

Mae pob ffigur ar gyfer yr wythnos olaf o Ragfyr yn y flwyddyn berthnasol ac fe'u codwyd o Gronfa Ddata Aelodau CGC. Mae'r ffigurau aelodau newydd ac wedi ymddeol ar gyfer y Cymdeithasau yn rhai bras oherwydd efallai na fydd aelodau sydd heb dalu sy'n ailymuno yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrif yn gywir.

Eraill	***Aelodau ar ddiwedd 2018***	*Aelodau ar ddiwedd 2017*	*Aelodau Newydd*	*Aelodau Wedi Ymddeol*
Aelodau Unigol	**26**	28	2	4
Aelodau Anrhydeddus	**7**	9	0	2
	33	37		

Cymdeithas	***Aelodau ar ddiwedd 2018***	*Aelodau ar ddiwedd 2017*	*Aelodau Newydd*	*Aelodau wedi Ymddeol*		
			Nifer		*%*	
AberystwythNifer	**57**	52	12	23%	7	13%
Ynys Môn	**125**	122	30	25%	27	22%
Brycheiniog a Maesyfed	**109**	69	68	99%	28	41%
Pen-y-bont	**143**	125	22	18%	4	3%
Caerdydd, y Fro a'r Cymoedd	**188**	173	56	32%	41	24%
Caerfyrddin	**65**	42	25	60%	2	5%
Conwy	**156**	164	19	12%	27	16%
Dwyrain Caerfyrddin	**68**	59	32	54%	23	39%
Y Fflint a'r Cylch	**87**	78	23	29%	14	18%
Ceredigion	**35**	35	0	0%	0	0%
Llanbedr Pont Steffan	**58**	53	15	28%	10	19%
Llŷn ac Eifionydd	**47**	37	10	27%	0	0%
Meirionnydd	**80**	72	27	38%	19	26%
Sir Drefaldwyn	**101**	108	19	18%	26	24%
Sir Benfro	**156**	160	73	46%	77	48%
De Clwyd	**155**	146	38	26%	29	20%
Abertawe	**118**	117	23	20%	22	19%

Glannau Teifi	**70**	68	28	41%	26	38%
Gorllewin Morgannwg	**48**	48	15	31%	15	31%
	1867	1728				